PRIFFYRDD CYMRU

**201- Rhif**

# GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD CAERSŴS I FACHYNLLETH (YR A489) TROETFFORDD/ FFORDD FEICIAU GYFUN) 201-

## DEDDF PRIFFYRDD 1980 a DEDDF CAFFAEL TIR 1981

*Gwnaed 201-*

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn "yr awdurdod caffael") yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn -

**1.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981(**2**) a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi, a phob pŵer galluogi arall(**3**), drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'r tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 yn orfodol at ddibenion:

(a) adeiladu troetffordd/ ffordd feiciau gyfun yng Nghymuned Penegoes yn Sir Powys;

(b) defnydd gan Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â gwneud y gwaith a grybwyllir uchod.

**2.** Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen sydd gyda'r Gorchymyn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ac ymyl coch ar y map y paratowyd dau gopi ohono, sydd wedi ei selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael a'i farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A489) Troetffordd/ Ffordd Feiciau Gyfun) 201-".

---

(**1**) 1980 p.66.
(**2**) 1981 p.67.
(**3**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**3.** Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu.

**4.** At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith fydd yn cael ei godi ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythïen o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 o fetrau, p'un bynnag yw'r mwyaf.

**5.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y map" (*"the map"*) yw'r map sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A489) Troetffordd/ Ffordd Feiciau Gyfun) 201-" ac a lofnodwyd gan swyddog o'r awdurdod caffael a'i selio â sêl yr awdurdod caffael a'i adneuo yn Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Cofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

ystyr "y gefnffordd" *("the trunk road")* yw Cefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A489).

**6**. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A489) Troetffordd/ Ffordd Feiciau Gyfun) 201-".

Dilysir SÊL GYFFREDIN GWEINIDOGOIN CYMRU a osodir yma gan

## GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD CAERSŴS I FACHYNLLETH (YR A489) TROETFFORDD/ FFORDD FEICIAU GYFUN) 201-

### PRYNU TIR YN ORFODOL YM MHENEGOES YN SIR POWYS

**HYSBYSIR DRWY HYN** bod Gweinidogion Cymru wedi paratoi’r canlynol ar ffurf ddrafft “Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A489) Troetffordd/ Ffordd Feiciau Gyfun) 201-” o dan adran 239 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 1(1) (b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi. Mae Gweinidogion Cymru ar fin gwneud y Gorchymyn hwn ac os caiff y Gorchymyn ei wneud bydd yn eu hawdurdodi i brynu'r tir a ddisgrifir isod yn orfodol at ddibenion: -

(a) adeiladu troetffordd/ ffordd feiciau gyfun yng Nghymuned Penegoes yn Sir Powys;

(b) defnydd gan Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â gwneud y gwaith a grybwyllir uchod.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r map sydd gydag ef ar bob adeg resymol o 12 Awst 2011 hyd at 2 Medi 2011 yn y mannau a ganlyn

- Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

- Llyfrgell Machynlleth, Stryd Maengwyn, Machynlleth, Powys SY20 8DY.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn drafft yn ysgrifenedig at Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ cyn 2 Medi 2011 gan roi enw'r Gorchymyn, y cyfeirnod ZB 0812165-312-qA877659, seiliau'r gwrthwynebiad a chyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiannau yn y tir. Dalier Sylw: bydd eich gohebiaeth yn cael ei hystyried gan y Tîm Prosiect ac fe all fod angen inni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o’r broses o ymgynghori ag eraill mae’n bosibl y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt gan gynnwys gwybodaeth yr ydych chi wedi ei rhoi inni ynghyd â’ch manylion personol. Er hynny, dim ond pan fo hynny’n angenrheidiol er mwyn ein galluogi ni i ymdrin â’r materion yr ydych chi wedi eu dwyn i’n sylw ni y byddwn yn datgelu eich manylion personol. Pan ddaw Cynllun Cefnffordd yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus, caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad Cyhoeddus a chedwir hi yn Llyfrgell yr Ymchwiliad Cyhoeddus a bydd ar gael i’r cyhoedd.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn drafft a’r hysbysiad cyhoeddus yn: www.cymru.gov.uk (Detholer ‘Llywodraeth Cymru, Deddfwriaeth, Is-Ddeddfwriaeth. Deddfwriaeth ddrafft, Offerynnau

Anstatudol Drafft, Gorchmynion Ffyrdd Ymyl a Phrynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd').

**Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

**DISGRIFIAD O'R TIR**

NODYN

- dynodir y tir ym mhob eitem isod ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn drafft â'r rhif neu'r rhifau a osodir yn erbyn yr eitem honno isod.
- mae cyfeiriadau at berchnogaeth yn gyfeiriadau at berchnogaeth neu berchnogaeth honedig ar adeg paratoi'r Gorchymyn drafft a dim ond at ddibenion adnabod y tir y cânt eu datgan.

Yng Nghymuned Penegoes

Rhan o'r gefnffordd bresennol, y llain ymyl a rhan o'r tir pori i'r de o'r gefnffordd; tir pori i'r de o'r gefnffordd. (Plotiau 1, 1/a)

**M D BURNELL**
**Y GANGEN ORCHMYNION**
**TRAFNIDIAETH**
**LLYWODRAETH CYMRU**

Llofnodwyd gan swyddog o Lywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig xx xxx 201-